

# DME: Prosiectau Rhwydwaith Mewnol yng Nghymru – Taflen Weithgaredd 1

## Cyflwyniad

1. Ysgrifennwch y teitl **Cyflwyniad**.
2. Beth yw ystyr y term ‘Rhwydwaith Mewnol’?
3. Beth yw ystyr y term ‘Rhwydwaith Mewnol Caled’?
4. Beth yw ystyr y term ‘Rhwydwaith Mewnol Meddal’?
5. Lluniwch fersiwn eich hun o’r tabl isod, ond **rhestrwch** y prosiectau o’r swm isaf i’r swm uchaf.

Prosiectau Rhwydwaith Mewnol Rheilffyrdd	
Prosiect	Cost £ Biliwn
HS1	5.4
HS2	30
Crossrail 1	15.9
Crossrail 2	32
Trydaneiddio <i>Great Western</i>	5

6. Ewch ati i lunio graff i ddangos y costau ar gyfer y wahanol brosiectau rheilffyrdd uchod.
7. Esboniwch sut mae’r economi fel teisen, gyda rhwydwaith mewnol yn gynhwysion iddi?
8. Yn meddwl am eich ateb i gwestiwn 7, ceisiwch esbonio’r ymadrodd, “oni fentrwch chi beth, nid enillwch chi ddim, oni heuir ni fedir”.
  - Defnyddiwch HS2 fel enghraifft i’ch helpu chi esbonio mai £30 biliwn yw’r gost a gredir, ond mae disgwyl iddo ennill £43 biliwn o arian ychwanegol, yn ogystal â £27 biliwn mewn tocynnau dros gyfnod o 30 mlynedd.

## Cefndir

9. Ysgrifennwch y teitl **Cefndir**.
10. Defnyddiwch GIS fel Google Earth i:
  - a. Ddod o hyd i fap o ardal sydd yn ddinasoedd a threfi yn bennaf (ardal ddinesig);
  - b. Ddod o hyd i fap sydd yn dir amaeth a chefn gwlad yn bennaf (ardal wledig)

Does dim rhaid i’r mapiau fod yn gopiâu caled; gallech chi wneud hyn ar sgrîn.

11. Lluniwch dabl i restri’r wahanol fathau o rwydwaith mewnol caled y gallwch weld ar y ddau fap. Ceisiwch ddod o hyd i o leiaf 12 yn yr ardal ddinesig, ac o leiaf 5 yn yr ardal wledig.

Rhwydwaith Mewnol Caled			
Ardal Ddinesig		Ardal Wledig	
1		1	
2		2	
3		3	
4		4	
5		5	
6		6	
7		7	
8		8	
9		9	
10		10	
11		11	
12		12	

12. Defnyddiwch ddiagram o’ch dewis chi er mwyn eich helpu chi ddisgrifio’r prif agweddau Rhwydwaith Mewnol Caled isod. Defnyddiwch enghreifftiau i’ch helpu eu disgrifio.

- Trafnidiaeth

- Tai
- Ynni
- Rheolaeth Dŵr
- Cyfathrebu
- Rheolaeth Gwastraff Solet

13. Defnyddiwch ddiagram o’ch dewis chi er mwyn eich helpu chi ddisgrifio’r prif agweddau Rhwydwaith Mewnol Meddal isod. Defnyddiwch enghreifftiau i’ch helpu eu disgrifio.

- Llywodraeth
- Economaidd
- Amaeth, Coedwigaeth a Physgodfeydd
- Gofal Iechyd
- Addysg ac Ymchwil
- Diwylliant, Chwaraeon ac Adloniant

14. Defnyddiwch fap lleol, naill ai map OS neu fap GIS (fel Google Earth).

- Lluniwch a nodwch y wahanol fathau o rwydwaith mewnol y gallwch eu gweld arno.

15. Rhestrwch y rhannau pwysig o rwydwaith mewnol sydd ar goll o’ch map chi.

16. Crëwch restr yn nhrefn blaenoriaeth, gyda’r peth pwysicaf yn gyntaf.